

Cyd-Brif Swyddogion Gweithredol
Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol
Tŷ Derw, Lime Tree Court
Parc Busnes Porth Caerdydd
Caerdydd
CF23 8AB

Cyfeirnod: 5196A2026
Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2026

1 Cwr y Ddinas / 1 Capital Quarter
Caerdydd / Cardiff
CF10 4BZ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Annwyl Myra a Harriet,

Gosod amcanion llesiant yn y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol

Yr hyn y mae'n rhaid i ni ei wneud

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), rhaid i'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (CGCD) a rhai cyrff cyhoeddus eraill osod 'amcanion llesiant' i helpu i greu Cymru well, nawr ac yn y dyfodol.

Wrth osod amcanion, rhaid i'r CGCD gymryd golwg tymor hwy a chymhwyso'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy'. Mae'r Ddeddf yn diffinio hyn fel 'ceisio gweithredu mewn modd sy'n diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'.

Mae'n ofynnol i mi asesu sut mae'r CGCD yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant. Rwyf wedi nodi rhagor o fanylion am ein dull archwilio yn **Atodiad 1**.

Amgylchiadau yn CGCD

Daeth y CGCD o dan y Ddeddf ym mis Mehefin 2024 ac roedd yn ofynnol iddo osod ei amcanion llesiant cyntaf erbyn 31 Mawrth 2025. Cyhoeddodd yr amcanion ar 30 Mawrth 2025, yn ei 'ddatganiad llesiant'. Dechreuodd fy archwilwyr ein harchwiliad yn fuan wedyn, gan gasglu tystiolaeth rhwng Awst a Hydref 2025. Roedd hwn yn

adolygiad lefel gymharol uchel. Ein prif sylw oedd ar y broses sy'n arwain at gyhoeddi'r amcanion.

Ym mis Medi 2025, yn union ar ôl i ni orffen ein cyfweiliadau gwaith maes, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad ysgrifenedig sy'n berthnasol i ddyfodol y CGCD. Dywedodd y byddai'n ceisio cysoni sgiliau ac adnoddau CGCD â'i Swyddfa Deallusrwydd Artiffisial newydd, sy'n golygu y byddai swyddogaethau CGCD yn cael eu hintegreiddio i Lywodraeth Cymru erbyn Ebrill 2026. O ganlyniad, ni fydd y CGCD bellach yn endid ar wahân ac ni fydd yn bodoli i gyflawni ei amcanion llesiant.

Pe bai fy archwilyr yn gwybod hyn cyn dechrau'r archwiliad, mae'n debyg na fyddent wedi bwrw ymlaen. O ystyried eu bod wedi cwblhau eu gwaith i raddau helaeth erbyn hyn, nid oes angen llawer o adnoddau ychwanegol i ddod â'r archwiliad i ben. Fodd bynnag, rydym wedi penderfynu dod i gasgliad trwy adrodd ein canfyddiadau yn y llythyr byr hwn yn hytrach nag adroddiad manylach.

Yr hyn rydyn ni wedi'i ddarganfod

Yn gyffredinol, gwelsom fod y CGCD wedi ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant, yn cynnwys staff yn eang ac ystyried tueddiadau'r dyfodol.

Fodd bynnag, gallai fod wedi mynd llawer ymhellach, er enghraifft, trwy gynnwys rhanddeiliaid allanol. Yn allweddol, nid oedd y CGCD yn rhoi ei amcanion llesiant wrth wraidd y sefydliad, ac nid oedd yn glir sut roedd yn bwriadu darparu adnoddau neu fonitro cynnydd ac effaith.

Byddem wedi gwneud argymhellion yn y meysydd hyn, pe bai'r CGCD wedi parhau i fodoli fel corff a enwir o dan y Ddeddf. Mae'r paragraffau isod yn nodi cryfderau allweddol a meysydd i'w gwella, gan eu bod yn ymwneud â'n cwestiynau a'n meini prawf archwilio.

Cryfderau

Adolygodd y CGCD rai ffynonellau data allweddol i'w helpu i ddeall heriau cyfredol a thueddiadau yn y dyfodol a'u goblygiadau i'r sefydliad. Mae'r ffynonellau wedi'u rhestru yn y datganiad llesiant.

Yn gadarnhaol, roedd y CGCD wedi cynnwys staff ar draws y sefydliad i archwilio tueddiadau'r dyfodol. Cynhaliodd weithdai a oedd yn agored i bawb a defnyddiodd yr adborth i helpu i lunio ei amcanion llesiant. Mae'r archwiliad hwn o dueddiadau'r dyfodol yn dod drwodd yn y datganiad llesiant, sy'n disgrifio'r effaith y bwriedir i'r amcanion ei chael ar wahanol dueddiadau.

Fe wnaeth y CGCD gynnwys staff ymhellach trwy sefydlu Fforwm Gweithwyr. Roedd hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o'i holl adrannau. Rhoddodd y Fforwm farn ar yr

amcanion ar adegau allweddol yn eu datblygiad. Fe'i sefydlwyd at y diben hwn, ac i gyflawni gofynion Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, yn absenoldeb unrhyw undebau llafur cydnabyddedig. Disgrifiodd staff y fforwm i ni mewn modd cadarnhaol iawn. Rydym yn nodi, o ystyried ei lwyddiant, fod y CGCD wedi parhau i'w ddefnyddio i gynnwys staff ar faterion sefydliadol.

Mae'r CGCD hefyd yn ystyried y nodau llesiant cenedlaethol wrth ddatblygu ei amcanion llesiant. Ochr yn ochr â thueddiadau'r dyfodol, disgrifiodd y datganiad llesiant yr effaith y bwriedir i'r amcanion ei chael ar y nodau.

Meysydd i'w gwella

Y tu hwnt i staff, roedd rhanddeiliaid pwysig na wnaeth y CGCD eu cynnwys. Nid oedd ei Fwrdd yn rhan ar unrhyw adeg ac nid oedd wedi cymeradwyo'r amcanion terfynol. Roedd peidio â chynnwys y Bwrdd yn hepgoriad o bwys, o ystyried fod y cylch gorchwyl wedi disgrifiwyd ei rôl mewn 'materion strategol a sylweddol sy'n effeithio ar weithrediadau'r CGCD wrth gyflawni ei nodau a'i amcanion'.

Trafododd y CGCD gyfleoedd ar gyfer cydweithio ag lechyd a Gofal Digidol Cymru. Fodd bynnag, nid oedd yn cynnwys yr ystod lawn o bartneriaid y mae'n gweithio gyda nhw. Nid oedd ychwaith yn cynnwys y cyhoedd. Gallai cyfranogiad mwy helaeth fod wedi rhoi cipolwg defnyddiol i'r CGCD i'r math o gymorth y dylai ei gynnig i gyrff cyhoeddus, a sut y dylai ei ddarparu.

Yn yr un modd, er bod y CGCD wedi adolygu cynlluniau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i ddeall eu hamcanion, nid oedd wedi edrych yn ehangach ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill. Gallai hyn fod wedi nodi meysydd diddordeb a chyfleoedd ar y cyd i gydweithio.

Dewisodd y CGCD osod amcanion llesiant ar wahân i'w brif flaenoriaethau strategol. Mae gan gyrff cyhoeddus ryddid i benderfynu sut maen nhw'n gosod eu hamcanion llesiant. Fodd bynnag, mae'n arfer gorau iddynt fod y prif flaenoriaethau corfforaethol. Gall hyn helpu i yrru gweithredu ar draws y sefydliad ac osgoi cymhlethdod diangen ar draws cynlluniau ac amcanion.

Rydym yn gwerthfawrogi nad oedd dod â phethau at ei gilydd yn rhwydd, o ystyried nad oedd amseru'r gofyniad newydd i osod amcanion llesiant yn cyd-fynd â chylch cynllunio presennol y CGCD. Mae ei flaenoriaethau strategol presennol, a nodir yn y Cynllun Busnes a Gweithredol, yn cwmpasu rhwng 2023 a 2026 (nid yw'r ddogfen hon ar gael i'r cyhoedd, er bod y blaenoriaethau strategol wedi'u cynnwys ar ei wefan).

Yn hytrach, mae'r amcanion llesiant wedi eu hychwanegu at nifer y blaenoriaethau ac nid ydynt yn ymddangos i ddod at ei gilydd mewn fframwaith cynllunio cydlynol. Yn ogystal â'r Cynllun Busnes a Gweithredol 2023 i 2026, mae Cynllun Gweithredol 2025-26. Mae'r olaf yn nodi tair thema sy'n adlewyrchu blaenoriaethau llythyr cylch

gwaith Llywodraeth Cymru wedi'u diweddarau. Er bod cymariaethau, mae'r themâu hyn yn wahanol i'r blaenoriaethau strategol yn y Cynllun Busnes a Gweithredol 2023-2026.

Ar ben hynny, er bod y CGCD wedi nodi camau y bwriadodd eu cymryd i gyflawni'r amcanion llesiant, nid ydynt wedi'u cynnwys yn benodol yng Nghynllun Gweithredol 2025-26. Felly, nid yw'n glir sut y byddai'r CGCD wedi cymryd y camau hyn ymlaen fel rhan o'i gyflawniad gweithredol.

Yn gyffredinol, nid oedd yn ymddangos bod y CGCD wedi ystyried yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion. Clywsom ei fod yn ystyried datblygu cynllun ariannol tair neu bum mlynedd, ond nid oedd y gwaith wedi dechrau. Gallai cynllun o'r fath fod wedi bod yn ddefnyddiol i ddarparu golwg tymor canolig o bwysau adnoddau a'r goblygiadau ar gyfer cyflawni'r amcanion llesiant.

Nid oedd y CGCD wedi datblygu mesurau perfformiad ar gyfer yr amcanion llesiant na threfniadau monitro ar yr adeg yr oeddem yn gwneud ein gwaith. Clywsom fod y CGCD wedi bod yn datblygu fframwaith rheoli perfformiad corfforaethol. Roedd yn cydnabod yr angen i greu asesiad o gynnydd tuag at yr amcanion llesiant ond nid oedd wedi penderfynu sut y byddai'n gwneud hynny. Dywedwyd wrthym hefyd fod y CGCD yn datblygu ffordd i brosiectau adrodd am gynnydd yn erbyn yr amcanion, a fyddai wedi bod yn gam cadarnhaol.

Rydym hefyd yn nodi nad yw'r datganiad llesiant yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Er enghraifft, nid yw'n nodi sut y bwriadodd y CGCD lywodraethu ei hun neu sicrhau bod adnoddau yn cael eu dyrannu'n flynyddol at ddibenion cymryd camau i gyflawni'r amcanion.

Ystyriaethau ehangach

Yn ystod ein gwaith, cawsom rywfaint o wybodaeth a wnaeth ein hysgogi ni i ofyn cwestiynau pellach am sut mae'r CGCD yn ystyried effeithiau cydraddoldeb. Fe wnaethom ofyn am wybodaeth, ond nid ydym wedi ei dderbyn ac mae'r dull yn parhau i fod yn aneglur. Bydd hyn yn parhau i fod yn berthnasol i'r ffordd y mae'r CGCD yn cyflawni ei swyddogaethau yn yr amser cyn iddo integreiddio â Llywodraeth Cymru ac ar gyfer y dyfodol.

Sylwadau terfynol

Er y bydd swyddogaethau'r CGCD yn cael eu hintegreiddio â Llywodraeth Cymru ar ddiwedd 2025-26, gobeithio y bydd fy llythyr yn darparu pwyntiau myfyrio defnyddiol.

Ar ôl cwblhau'r archwiliad hwn, byddaf yn tynnu ar y canfyddiadau fel rhan o'm dadansoddiad cyffredinol yn fy adroddiad statudol nesaf o dan y Ddeddf. Disgwylir i'r adroddiad hwnnw gael ei gyhoeddi erbyn dechrau mis Mai 2029.

Yn gywir

ADRIAN CROMPTON

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Atodiad 1: Ynglŷn â'n gwaith

Cwestiynau a meini prawf archwilio

Cwestiynau

Wrth gyflawni'r gwaith hwn, gwnaethom archwilio'r canlynol:

- A oedd y broses a roddodd y CGCD ar waith i osod ei amcanion llesiant yn seiliedig ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy?
- A yw'r CGCD wedi ystyried sut y bydd yn sicrhau y gall gyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?
- A yw'r CGCD wedi rhoi trefniadau ar waith i fonitro cynnydd, dysgu, a pharhau i wella sut mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei amcanion llesiant?

Meini Prawf

Fe wnaethom ddefnyddio meini prawf archwilio i lywio ein hasesiad. Mae'r meini prawf archwilio yn disgrifio sut mae da yn edrych ac yn cwmpasu pob un o bum ffordd o weithio'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Maent yn seiliedig ar y dangosyddion cadarnhaol yr ydym wedi'u defnyddio o'r blaen yn ein harchwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy. Fe wnaethom ddatblygu'r dangosyddion hyn drwy ymgysylltu â chyrff cyhoeddus a'n llywio gan gyngor ac arweiniad gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Dulliau

Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys datganiad llesiant CGCD, cynlluniau allweddol eraill, tystiolaeth sydd wedi llywio ei feddwl ar yr amcanion llesiant, a nodiadau cyfarfodydd allweddol.

Fe wnaethom hefyd gyfweld â staff a oedd wedi arwain y broses o ddatblygu'r amcanion llesiant a sampl o uwch staff.